# Byw mewn Fflatiau

Mae angen i chi fod yn arbennig o ystyriol o'ch cymdogion. Gall sŵn deithio drwy floc o fflatiau, ac os yw'n rhy uchel, gan beri pryder neu amharu ar y preswylwyr eraill. Cadwch sŵn gan ymwelwyr, setiau teledu, offer hi-fi ac ati yn rhesymol. Nid yw'n rhesymol os gellir ei glywed yn glir yn fflat rhywun arall. Ceisiwch fod yn gymydog ystyriol.

## Ardaloedd Cymunedol

Mae'r rhain yn ardaloedd y mae nifer o denantiaid yn eu rhannu fel cyrtiau, coridorau, landins a grisiau. Rhaid i chi gadw unrhyw ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus ac ni chewch osod unrhyw eiddo, sbwriel, dodrefn na gwastraff mewn unrhyw ardaloedd a rennir, a rhaid i chi sicrhau bod coridorau, grisiau, landins a ffyrdd mynediad yn cael eu cadw'n glir rhag eitemau o'r fath gan gynnwys matiau, carpedi a phlanhigion. Gallai gadael eitemau yn y mannau hyn flocio allanfa dân.

Wrth ddefnyddio'r cwrt, dylech barchu preifatrwydd eraill drwy beidio ag eistedd yn agos at ffenestr ystafell wely rhywun ac ati. Os ydych yn rhannu cyfleusterau fel leiniau sychu dillad, ceisiwch lunio rota sy'n addas i bawb. Gallai llawer o'r problemau rhwng cymdogion mewn fflatiau gael eu hosgoi pe bai pobl yn fwy ystyriol o effaith eu hymddygiad ar eraill. Y Cyngor sy'n gyfrifol am newid leiniau sychu dillad a leiniau sychu dillad cylchol os oes angen.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw fynedfeydd, coridorau, grisiau, landins, lifftiau, llithrau sbwriel, goleuadau, amwynderau neu gyfleusterau cymunedol mewn cyflwr rhesymol.

Fodd bynnag, ni fydd y Cyngor yn atebol i drwsio unrhyw eitem os oes angen gwneud hynny oherwydd bod y tenantiaid neu eu hymwelwyr ar fai neu wedi'i chamddefnyddio. Mewn rhai achosion, gall y Cyngor wneud gwaith atgyweirio a gwneud i'r tenant cyfrifol dalu amdano.

## Systemau Mynediad Drysau

Mae gan lawer o fflatiau system mynediad drysau ac felly cyfyngir mynediad i breswylwyr yr adeilad a'u hymwelwyr. Dylai hyn wneud y bloc yn fwy diogel a sicrhau mwy o breifatrwydd i chi a'r preswylwyr eraill.

Un o amodau'ch tenantiaeth yw peidio ag amharu ar offer diogelwch, gan gynnwys drysau cymunedol; ni ddylid eu gadael ar agor. Er mwyn i'r system weithio'n gywir, mae'n bwysig i chi gau'r prif ddrws wrth gyrraedd a gadael, a pheidio â rhoi mynediad i unrhyw un nad ydych yn ei adnabod. Dylech adrodd unrhyw broblemau am y system mynediad drysau i'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau—029 20872088.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni

CARDIFF
CAERDYDD

## Goleuadau

Y Cyngor sy'n gyfrifol am oleuo'r ardal gymunedol sy'n cynnwys y fynedfa gymunedol, landins a'r cwrt, a dylid adrodd unrhyw broblemau i'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau.

## Lifftiau

Bydd gwasanaeth 24 awr sy'n delio â lifftiau sydd wedi torri. Os nad yw'r lifft yn gweithio rhowch wybod i'r gofalwr (os yw ar y safle) neu'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau. Os bydd rhywun yn cael ei gloi yn y lifft, dylai bwyso'r gloch larwm a fydd yn canu yng Ngorsaf y Frigâd Dân a fflat y gofalwr.

**Noder**
**Peidiwch â defnyddio'r lifft os oes tân.**

## Erialau Teledu

Dylid adrodd unrhyw broblemau â'r erial cymunedol i'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau. Cyn rhoi gwybod am y broblem, dylech holi'ch cymydog i weld a oes ganddo'r un broblem, fel eich bod yn gwybod mai'r erial cymunedol sydd ar fai ac nid eich teledu. Mae'r Cyngor ond yn gyfrifol am yr erial cymunedol a'r soced feistr erial teledu. Cyfrifoldeb y tenant yw unrhyw wifrau ategol.

## Sbwriel

Mae gan flociau aml-lawr lithrau biniau a ddefnyddir i waredu gwastraff. Cyfyngir maint agoriad y llithrau er diogelwch. Gall bag o sbwriel o fin pedal ffitio drwy'r llithr. Os caiff ei blocio, cysylltwch â'ch gofalwr neu'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau.

Sicrhewch na chaiff sbwriel ei adael ar landins, grisiau nac unrhyw ardal gymunedol arall. Os cewch eich canfod yn gwaredu sbwriel fel hyn, bydd yn rhaid i chi dalu'r gost o'i waredu. I waredu eitemau swmpus cysylltwch â C2C—029 20872088.

## Tân

Os oes gan eich bloc o fflatiau larymau tân, dylech dorri'r gwydr a phwyso'r botwm os oes tân. Bydd y larwm tân yn canu ar y llawr lle mae'r tân wedi dechrau, y llawr oddi tano a'r llawr uwch ben. Dylai fod gan bob bloc o fflatiau gyfarwyddiadau ar beth i'w wneud os oes tân, ond os nad oes dylech gysylltu â'ch Swyddog Diogelwch Tân—029 20537412.

Ni chaniateir cadw na defnyddio nwy potel (LPD) na gwresogyddion paraffin.

## Golchi dillad

Pan fydd gan floc o fflatiau ystafell golchi dillad sydd at ddefnydd holl denantiaid y bloc hwnnw, fel arfer bydd y tenantiaid yn cytuno ar amseroedd agor a rota. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r ardaloedd hyn. Dylech adrodd unrhyw broblem i'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau neu'r gofalwr.

## Y Tu Allan i'r Bloc o Fflatiau.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am yr holl waith atgyweirio y tu allan i'r adeilad ac i'r adeiledd. Dylech adrodd yr holl waith atgyweirio i'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau.